

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

<b>Teitl:</b> Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)		<b>Rhif Cyfeirnod yr Asesiad</b> (I'w lenwi gan Uned y Gymraeg): <b>17/11/01</b>			
<b>Dyddiad:</b>		Adolygwyd ddiwethaf Gorffennaf 2018			
<b>Manylion cyswllt:</b>		<a href="mailto:SENReforms@llyw.cymru">SENReforms@llyw.cymru</a>			
<b>Math o Raglen/Prosiect</b>					
<input type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen				
<input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad				
<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau				
<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau				
<input type="checkbox"/> Seilwaith					
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf					
<input type="checkbox"/> TGCh					
<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
<b>Costau: Beth a ragwelir fydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?</b>					
Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
<b>O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?</b>					
Mae ystyriaeth gynhwysfawr o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn yn rhan o asesiad effaith rheoleiddiol, sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf.					
<b>Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?</b>					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Nid ydym yn gwybod
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<b>Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:</b>					
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y Rhaglen i Drawsnewid y System ADY					
<ul style="list-style-type: none"> <li>• 2012 – ymgynghoriad cyn dechrau'r broses ddeddfwriaethol – <i>Ymlaen mewn Partneriaeth dros Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol</i></li> <li>• 2014 – Papur Gwyn – <i>Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol</i>;</li> <li>• Gorffennaf – Rhagfyr 2015 – Ymgynghoriad ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft</li> <li>• Medi 2015 – y drafft cyntaf o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol</li> <li>• 28 Mehefin 2016 – Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ('y Bil') fel rhan o flwyddyn gyntaf</li> </ul>					

#### Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth

- 1 Gorffennaf 2016 – cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- 21 Tachwedd 2016 – cyhoeddiad ar y Rhaglen i Drawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r pecyn mesurau i gefnogi'r broses o bontio i'r system newydd, gan gynnwys prosiectau llwyddiannus y Gronfa Arloesi ar gyfer ADY
- 12 Rhagfyr 2016 – cyflwyno'r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- 14 Chwefror 2017 – rhannu ail ddrafft y Cod ADY â Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad i hwyluso'r gwaith o graffu ar y Bil
- 22 Chwefror 2017 – cyhoeddi'r esboniad hawdd ei ddarllen o'r Bil
- 27 Chwefror 2017 – ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer gweithredu'r system newydd – a ddaeth i ben ar 9 Mehefin
- 28 Chwefror-9 Mawrth 2017 – cynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol yng Nghaerdydd, Casnewydd, Llandudno a Chaerfyrddin i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y Bil a'i weithredu
- Rhagfyr 2017 – cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer gweithredu'r system newydd, a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y cynlluniau gweithredu; a
- 24 Ionawr 2018 – Cydsyniad Brenhinol, gwneud y Bil yn Ddeddf

Roedd y digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid a gynhaliwyd ym mis Chwefror a Mawrth 2017 yn agored i unrhyw un oedd â diddordeb yn y broses ddiwygio ddeddfwriaethol hon, ac aeth rhieni, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, penaethiaid, staff addysgu, sefydliadau addysg bellach, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, aelodau panel Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuchyd proffesiynol. Mae adborth o'r digwyddiadau hyn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach y Rhaglen i Drawsnewid y System ADY a'r cynlluniau i weithredu'r system newydd.

#### **CAM 1: CYNLLUNIO**

##### **Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**

**Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') yn creu fframwaith statudol newydd i helpu plant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag ADY. Bydd y fframwaith newydd yn disodli'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) ynghyd â'r drefn asesu a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Yr amcanion yw creu:

- un fframwaith deddfwriaethol i gefnogi plant o oed ysgol gorfodol neu'n iau sydd ag ADY, a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag ADY ac yn yr ysgol neu mewn addysg bellach;
- proses gydweithredol integredig o asesu a chynllunio sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a

- system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, a datrys pryderon ac apeliadau.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Ddeddf yn cynnwys yr elfennau canlynol:

### Cyflwyno'r term 'anghenion dysgu ychwanegol'

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer y term 'ADY' i ddisodli'r termau 'AAA' ac 'AAD', ac mae'n caniatáu ar gyfer ei ddefnyddio mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc ag ADY sydd o oed ysgol gorfodol neu'n iau, neu sydd dros oed ysgol gorfodol ac yn yr ysgol neu mewn addysg bellach. At ddibenion y Ddeddf, diffinnir 'plentyn' fel person nad yw dros oed ysgol gorfodol, a diffinnir 'person ifanc' fel person sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 25 oed.

Bydd defnyddio un term ar draws yr ystod oedran 0-25 yn tanlinellu cydlyniant y system newydd ac yn sicrhau mwy o degwch i ddysgwyr. Bydd hefyd yn helpu i osgoi rhywfaint o'r stigma sy'n gysylltiedig â'r termau presennol ac yn nodi toriad clir oddi wrth y systemau presennol.

### Ystod oedran 0-25

Mae'r Ddeddf yn darparu bod yr un cynllun statudol yn cael ei roi i ddysgwyr ag ADY sydd rhwng 0 a 25 oed, p'un a ydynt o oed ysgol gorfodol neu'n iau, neu mewn chweched dosbarth neu sefydliad addysg bellach. Bydd, felly, yn rhoi'r systemau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ar sail gyfartal a dylai wella'r broses bontio rhwng yr ysgol ac addysg ôl-16.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu y bydd awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yn rhoi sylw i'r confensiynau wrth wneud penderfyniadau strategol, yn unol â'r Cod ADY.

### Cynllun unedig

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno cynllun datblygu unigol (CDU) statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.

Bydd y CDU yn disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Fel rheol, lle bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru yn pennu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd corff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu yn paratoi, yn cynnal ac yn adolygu CDU. Fel rheol, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach hwnnw fydd yn darparu'r DDdY a nodir yn y CDU.

Mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd i baratoi a chynnal CDUau i blant a phobl ifanc yn eu hardal. Er enghraifft, yn yr achosion lle bydd yn rhaid i'r penderfyniad ynghylch union hyd a lled ADY plentyn neu berson ifanc, neu'r union DDdY sydd ei hangen, gael ei wneud y tu allan i'r ysgol neu'r sefydliad addysg

bellach; neu lle na fyddai'n rhesymol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sicrhau'r DDdY y gallai fod ei hangen; neu lle nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd i leoliad o'r fath (gan gynnwys y rheini sy'n mynd i ysgolion nas cynhelir a lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir neu blant a addysgir gartref), byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu ar ADY, paratoi ac adolygu'r CDU (os yw hynny'n ofynnol yn achos person ifanc nad yw'n mynychu sefydliad addysg bellach neu ysgol a gynhelir yng Nghymru) a sicrhau'r DDdY o'i fewn. Y bwriad yw y bydd y Cod ADY yn darparu canllawiau ar achosion lle nad yw hi'n rhesymol efallai i ysgol neu sefydliad addysg bellach benderfynu ar ADY dysgwr neu sicrhau'r DDdY sydd ei hangen.

Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am baratoi, cynnal ac adolygu CDUau plant ag ADY sydd dan ei ofal ac sydd mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru (p'un a yw o fewn eu hardal nhw neu ardal awdurdod lleol arall).

Byddai'n rhaid adolygu CDUau unwaith bob 12 mis o leiaf, ac efallai y bydd angen eu hadolygu yn amlach, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Lle bydd dysgwr sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys yn y CDU – ond yn y pen draw, mater i'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU fyddai sicrhau'r ddarpariaeth honno. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried hefyd a oes angen paratoi a chynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach; p'un a oes angen parhau i gynnal cynllun person ifanc; a ph'un a fydd angen cynnal cynllun person sydd dan gadwad, gan gynnwys plentyn dan gadwad, pan gaiff y person ei ryddhau.

Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â sefyllfa lle daw dyletswyddau i gynnal CDU i ben, a lle cânt eu trosglwyddo i gorff arall. Er enghraifft, gall corff roi'r gorau i gynnal CDU os bydd yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach, ond mewn achos fel hwn, cyn iddo roi'r gorau i gynnal y cynllun, caiff y dysgwr gyfle i herio'r penderfyniad. Mae yna ddarpariaeth hefyd i'r dyletswyddau i gynnal CDU drosglwyddo i gorff arall, er enghraifft pan fydd plentyn neu berson ifanc yn symud i ysgol arall neu i ardal awdurdod lleol arall, neu'n mynd o'r ysgol i sefydliad addysg bellach.

Mae yna ddyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chadw plant neu bobl ifanc mewn llety cadw ieuencid perthnasol. Os nodir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY yn ystod ei gyfnod yn y llety cadw, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol cartref gynnal CDU. Lle bydd hyn yn digwydd a lle bydd gan blentyn neu berson ifanc CDU wrth gyrraedd llety cadw ieuencid perthnasol, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol cartref gadw'r CDU ar ei gyfer a threfnu DDdY briodol. Bydd hyn yn cynnwys achosion lle gosodwyd plentyn neu berson ifanc dan gadwad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a bydd Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn gallu sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY sydd dan gadwad oherwydd iechyd meddwl gwael yn parhau i gael y DDdY sydd ei hangen arnynt. Gallai DDdY briodol fod yn wahanol i'r DDdY a nodir yn y CDU nawr ei fod mewn llety o'r fath. Pan gaiff y plentyn neu'r person ifanc ei ryddhau, efallai y bydd angen i awdurdod lleol gynnal y CDU.

### Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Mae'r Ddeddf yn darparu bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau plant, eu rhieni a phobl ifanc yn ffurfio elfen hanfodol o'r system newydd ac yn pwysleisio mor bwysig yw hi bod plant, eu rhieni, a phobl ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl – yn eu dewis iaith – yn y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY a'r DDdY a ddarperir ar eu cyfer.

Bydd hyn yn rhoi sail statudol i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o ganolbwyntio'n llawer mwy ar yr unigolyn dan sylw wrth nodi anghenion a champau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny, a bydd yn helpu i sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion meddwl a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hwnnw. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i roi gwybodaeth a chynghor i blant, pobl ifanc ac eraill am ADY a'r system a amlinellir yn y Ddeddf. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i'r bobl hynny ac eraill beth yw'r trefniadau hynny, gan sicrhau bod yr wybodaeth a'r cynghor hwn yn cael eu rhannu'n briodol a'u bod ar gael i bawb sydd eu hangen.

Er mwyn i blant a phobl ifanc allu arfer yn llawn eu hawl i apelio o dan y Ddeddf, neu gymryd rhan mewn gweithdrefnau datrys anghytundeb, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant, pobl ifanc a'u cyfeillion achos. Gwasanaethau yw'r rhain sy'n cynnig cynghor a chymorth i blentyn, i berson ifanc, neu i gyfaill achos plentyn, sy'n gwneud, neu'n bwriadu gwneud, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys'); sy'n ystyried a ddylid apelio i'r Tribiwnlys; neu sy'n cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghytundeb, neu'n bwriadu gwneud hynny.

Fel rheol, bydd rhieni yn helpu plant sydd heb y gallu i ddeall eu CDU a gwybodaeth a dogfennau eraill a gyflwynir iddynt, yn ogystal â chyda'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u ADY. Er mwyn darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle na fydd hyn yn digwydd efallai, mae'r Ddeddf yn darparu i gyfaill achos gael ei benodi ar gyfer dysgwyr o'r fath. Gall 'cyfaill achos' gynrychioli a chefnogi'r plentyn a chymryd penderfyniadau ar ran y plentyn mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'u ADY a'u DDdY (yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau). Bydd plant sydd heb ddealltwriaeth ddigonol yn gallu defnyddio 'cyfaill achos', lle penodir un gan y Tribiwnlys, i arfer eu hawliau o dan y Ddeddf. Diben hyn yw sicrhau bod modd arfer hawliau'r plant hyn hyd yn oed lle nad yw rhiant yn gweithredu er budd pennaf y plentyn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn bosibl gwneud darpariaeth i unigolyn ymddangos ar ran parti fel rhan o apêl neu gais i'r Tribiwnlys. Byddai hyn yn cynnwys plentyn neu berson ifanc sydd â gallu digonol.

### Dyheadau uchel a gwell deilliannau

Mae dynodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) ar gyfer pob lleoliad i gydlynu cynlluniau ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ADY a cheisio cymhwyso'n gyson a gwella safonau sy'n ymwneud â chynllunio, pennu targedau a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn hollbwysig i ddatblygu diwylliant o ysgogi dyheadau uchel a gwell deilliannau. I'r

perwyl hwn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod gan bob ysgol a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd a gynhelir, ond heb gynnwys ysgolion arbennig a gynhelir sydd wedi'u sefydlu'n benodol i gyflwyno DDdY) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru Gydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol dynodedig. Bydd y Cydlynedd hwn yn disodli rôl y Cydlynedd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) anstatudol. Mae hefyd yn ehangu'r rôl i rai lleoliadau addysg nad oes ganddynt Gydlynedd AAA neu rôl gyfatebol ar hyn o bryd efallai.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddynodi unigolyn – Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar – i gydlynu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oed ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn lleoliad a gynhelir. Rhagwelir y bydd yna elfen ataliol i'r rôl hon, er enghraifft drwy nodi'r plant y mae yna oedi yn eu datblygiad, a allai droi'n ADY oni bai bod yna ymyriadau cynnar priodol yn cael eu cyflwyno ar eu cyfer.

Gall awdurdodau lleol geisio lleoliad ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu Lloegr, er mwyn diwallu eu hanghenion rhesymol. Fodd bynnag, ni all awdurdodau lleol osod dysgwyr sydd ag ADY mewn ysgol annibynnol o'r fath oni bai eu bod yn fodlon ei bod yn abl i gyflwyno'r DDdY a nodir yn CDU y dysgwyr. Bydd hyn yn lleihau'r risg y caiff dysgwyr ag ADY eu lleoli mewn ysgol annibynnol pan fo hynny'n amhriodol. Bydd Estyn yn monitro ysgolion annibynnol yng Nghymru bob blwyddyn, a bydd gan Estyn rôl hefyd yn sicrhau bod ysgolion annibynnol yn gallu darparu'r DDdY y maent wedi'u cofrestru i'w darparu. Rhaid i'r ysgol annibynnol hefyd fod ar gofrestr ysgolion annibynnol yng Nghymru neu gofrestr sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr.

Yn yr un modd, ni all awdurdodau lleol osod dysgwyr mewn coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr, oni bai bod y coleg ar restr o golegau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau a amlinellir yn y Ddeddf.

Hefyd, i raddau helaeth, mae'r Ddeddf yn ailddatgan y rhagdybiaeth ddeddfwriaethol bresennol sydd o blaid addysgu'r rheini sydd ag ADY yn ysgolion y brif ffrwd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hyn nid yn unig yn ategu polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar fod yn gynhwysol, ond mae'n tanlinellu ein safbwynt y dylai disgywiliadau ar gyfer y rheini sydd ag ADY, a'r dyheadau ar eu cyfer, fod mor uchel â phosibl. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn hyrwyddo dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cydnabod nad yw mynychu ysgol brif ffrwd yn briodol mewn rhai achosion neu nad dyna sydd orau i'r plentyn. Nid yw'r ddyletswydd i ffafrio addysg brif ffrwd yn berthnasol, felly, mewn amgylchiadau o'r fath.

Er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddysgu gyffredinol yr awdurdod lleol yn parhau i fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardal, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu'n rheolaidd y trefniadau a wneir ganddyn nhw (a chan gyrrff llywodraethu ysgolion yn eu hardaloedd) ar gyfer DDdY. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i'r angen posibl i sicrhau bod DDdY ar gael yn Gymraeg.

#### System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro

Wrth gael gwared â'r rhaniad artiffisial a chynhennus presennol rhwng plant a phobl ifanc sy'n cael datganiad AAA a'r diogelwch statudol a ddaw yn sgil hynny, a'r rheini

sydd ag anghenion na ystyrir yn ddigon difrifol neu gymhleth i roi cynllun a diogelwch statudol ar eu cyfer, bydd y Ddeddf yn cael gwared ag un o brif achosion tensiwn a gwrthdaro. Bydd pwyslais y Ddeddf ar gyfraniad plant, eu rhieni a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac yn y gwaith o ddatblygu CDUau, yn arwain at fwy o gonsensws wrth gynllunio. Bydd darpariaethau'r Ddeddf ar CDUau hefyd yn arwain y ffordd at broses lai biwrocraidd a hirwyntog o gynllunio, a ddylai fod yn haws ei deall ac yn llai tebygol o greu gwrthdaro.

### Rhagor o gydweithredu

Mae'r Ddeddf yn darparu, lle bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gwneud cais am gymorth neu wybodaeth oddi wrth gyrff eraill, gan gynnwys awdurdod lleol arall, corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (ymhlith eraill), y mae ei angen arno er mwyn cyflawni ei swyddogaethau ADY, y bydd yn rhaid i'r corff hwnnw gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud hynny:

- a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff ei hun; neu
- b) yn cael effaith andwyol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer paratoi, adolygu neu ddiwygio CDUau ar yr un pryd â chynlluniau eraill sy'n ymwneud â'r dysgwr hwnnw. Nod hyn yw osgoi (lle bo'n briodol) dyblygu ymdrechion a dryswch sy'n codi lle caiff sawl cynllun ei lunio ar gyfer yr un unigolyn, ac i'w gwneud yn bosibl alinio ac integreiddio prosesau cynllunio gwahanol lawer yn well.

Mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru yn benodol, ac i gydnabod y ffaith bod cyfran sylweddol iawn o'r plant hynny yn debygol o fod ag ADY, mae'r Ddeddf yn rhoi'r cyfrifoldeb dros faterion ADY ar yr awdurdod lleol y mae'r plentyn dan ei ofal (oni bai bod y plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cynnwys y CDU yng nghynllun addysg personol y plentyn, os oes yna un. Fel rheol, bydd y cynllun addysg yn rhan ofynnol o'i gynllun gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o blant, ond nid pob un, hy y rheini sydd o oed ysgol gorfodol neu'n iau, sy'n derbyn gofal – gweler adran 15 y Ddeddf. Bydd y darpariaethau hyn yn sicrhau bod cynlluniau ar gyfer anghenion addysgol y grŵp hwn o ddysgwyr sy'n agored i niwed yn cael eu symleiddio a'u cydgyssylltu'n well.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ('cyrff y GIG'). Pan ofynnir iddynt, rhaid i'r cyrff hyn ystyried p'un a oes triniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y dysgwr ac, os felly, rhaid i gorff y GIG sicrhau'r driniaeth neu'r gwasanaeth hwnnw. Rhaid cynnwys disgrifiad o'r driniaeth neu'r gwasanaeth wedyn yn CDU y dysgwr. Mae'r ddyletswydd hon yn gam pwysig ymlaen i sicrhau mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch pwy fydd yn darparu pa ddarpariaeth a nodir mewn CDU nag a geir yn achos datganiadau AAA ar hyn o bryd. Os bydd corff y GIG yn nodi y dylai'r driniaeth neu'r gwasanaeth gael eu darparu drwy'r Gymraeg, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r gwasanaeth neu'r driniaeth honno yn Gymraeg.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd yng Nghymru i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig. Rôl y swyddog hwn fydd

cydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, a allai gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod yna fodolau gwasanaeth priodol o fewn y bwrdd iechyd; rhoi arweiniad o fewn y bwrdd iechyd i helpu pobl i gyflawni dyletswyddau perthnasol y bwrdd; cydgysylltu â phartneriaid a bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol; a chymhell a hwyluso gwaith rhyngbroffesiynol effeithiol er budd plant ag ADY. Bydd rolau'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig, y Cydlynnydd ADY a Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar yn helpu i hwyluso cydweithredu effeithiol rhwng addysg ac iechyd er mwyn gwella gwasanaethau i ddysgwyr.

Rhoddir pŵer penodol i gyrff iechyd amrywiol yng Nghymru a Lloegr hefyd, i'w ddefnyddio wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ac o dan oed ysgol gorfodol. Hynny yw, os bydd y corff yn dod i'r farn bod gan blentyn ADY (neu ei bod yn debygol bod ganddo/ganddi ADY), bydd y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r corff iechyd ddod â'r mater i sylw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn (neu yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod y mae'r plentyn dan ei ofal) os yw o'r farn mai dyna sydd orau i'r plentyn. Cyn gwneud hynny, rhaid iddynt roi gwybod i riant y plentyn beth yw eu barn a'u pŵer, a chynnig cyfle i drafod.

Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi'r Tribiwnlys i rannu â Gweinidogion Cymru adroddiadau gan awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a chyrff iechyd ynghylch i ba raddau y maent yn cydymffurfio â gorchmynion ac ynghylch y camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig arall. Gellid rhannu gwybodaeth hefyd am achosion o fetu â chydymffurfio â gorchmynion neu am fethiant cyrff iechyd i gymryd camau mewn ymateb i argymhellion.

Bydd yr wybodaeth yn sicrhau bod modd monitro'r system, a hefyd bod camau yn cael eu cymryd, lle bo'n briodol, mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfio. Bydd monitro a gwerthuso'r system mewn perthynas â chydymffurfiaeth o ddefnydd wrth asesu p'un a yw argymhellion y Tribiwnlys i gyrff iechyd yn effeithiol.

### Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau a allai godi rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc ar y naill law, a chyrff addysg ar y llall (sef cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol) neu, yn achos anghytundebau a y DDdY a wneir, sefydliadau addysgol amrywiol. Mae hyn yn cynnwys rhoi mynediad i gymorth i ddatrys anghytundeb gan berson annibynnol. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.

Mae datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i osgoi a datrys anghytundeb yn allweddol er mwyn cynyddu'r ymddiriedaeth sydd gan blant, pobl ifanc a rhieni yn y system a'i gwneud yn llai tebygol y byddant am arfer eu hawliau apelio ar lefel Tribiwnlys. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y plant, eu rhieni a'r bobl ifanc yn ymwybodol nad yw'r trefniadau hyn yn effeithio ar eu hawliau i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

### Hawliau clir a chyson i apelio



Mae'r Ddeddf yn ailenwi ac yn ehangu cylch gwaith TAAAC. Caiff TAAAC ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhau â chyfansoddiad y Tribiwnlys, ei aelodaeth a'i dâl a'i dreuliau. Mae'r enw newydd yn adlewyrchu nid dim ond ei rôl wrth benderfynu ar apeliadau mewn perthynas ag ADY ond hefyd y rôl a gyflawnir ar hyn o bryd gan Dribiwnlys AAA Cymru wrth benderfynu ar hawliau sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion, swyddogaeth y bydd y Tribiwnlys yn dal i'w chyflawni. Ar hyn o bryd, dim ond y bobl ifanc hynny (nad ydynt eto yn 19 oed) sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir sydd â'r hawl i apelio i TAAAC mewn perthynas â'u AAA. Bydd y Ddeddf yn cyflwyno hawliau apelio tecach drwy ymestyn yr hawl hon i bob person ifanc hyd at 25 oed sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth i 'gyfaill achos' gael ei benodi drwy'r Tribiwnlys, lle nad oes gan blentyn allu digonol.

Mae'r Ddeddf yn galluogi plentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed, neu riant plentyn, i apelio yn erbyn materion penodol i'r Tribiwnlys lle bydd awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach wedi gwneud penderfyniad mewn perthynas ag ADY unigolyn, wedi paratoi neu'n cynnal CDU yr unigolyn hwnnw. Yn achos awdurdod lleol, byddai hyn yn cynnwys ailystyried penderfyniadau corff llywodraethu ysgol a diwygio cynlluniau a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol.

Er mai yn niffyg popeth arall y dylid defnyddio'r Tribiwnlys, bydd yr hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau rhwymol yn sicrhau bod y system newydd ar gyfer cefnogi ADY yn drylwyr ac yn ennyn hyder plant, eu rhieni a phobl ifanc. Bydd hefyd yn helpu i ofalu bod y dyletswyddau mewn perthynas â dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni'n iawn; bydd yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc ac yn sicrhau mwy o degwch. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu rôl Dirprwy Lywydd a fydd yn gwneud y tribiwnlys yn fwy effeithlon yn weithredol, yn fwy cynaliadwy ac yn gwella materion parhad busnes.

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 a wnaed ym mis Mawrth 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi sylw i TAAAC. Mae'r rheoliadau yn nodi safonau penodol ac yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiadau cydymffurfio i TAAAC. Y Comisiynydd sydd â'r rôl o gyflwyno safonau'r Gymraeg i'r Tribiwnlys drwy roi hysbysiad cydymffurfio.

#### Cod gorfodol

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ar ADY. Bydd y Cod yn berthnasol i'r rheini sydd â swyddogaethau o dan y Ddeddf hon a bydd yn gallu gosod:

- gofynion gorfodol (mewn perthynas â materion penodol a nodir yn y Ddeddf) y bydd yn rhaid i gyrff berthnasol weithredu yn unol â nhw;
- canllawiau y bydd yn rhaid i'r cyrff hynny a darparwyr eraill addysg a hyfforddiant roi sylw dyledus iddynt.

Bydd creu Cod fel hyn yn helpu i sicrhau bod yna gyfres o ffiniau clir, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, ar gyfer y system ADY, y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu weithredu o'u mewn. Bydd y Cod yn targedu ymarferwyr fel y gallant ddeall a gweithredu'r system ADY newydd. Bydd y Cod hefyd yn cynnwys

canllawiau statudol ac arferion gorau i'w gwneud yn bosibl i ymarferwyr weithredu'r system newydd yn effeithiol a dilyn eu dyletswyddau cyfreithiol o dan y drefn newydd, er enghraifft canllawiau ar ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg.

### System ddwyieithog

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau penodol mewn perthynas â DDdY drwy'r Gymraeg. Rhaid i wasanaethau ystyried a oes angen DDdY drwy'r Gymraeg ar y plentyn neu'r person ifanc. Os oes, rhaid cofnodi hynny yn y CDU, a rhaid i wasanaethau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth drwy'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mecanwaith i gael gwared â'r prawf 'pob cam rhesymol' drwy reoliadau, er mwyn i'r dyletswyddau i ddarparu DDdY drwy'r Gymraeg fod yn absoliwt.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys cyfres o ddyletswyddau strategol i wella'r DDdY sydd ar gael drwy'r Gymraeg, gan gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru adolygu digonolrwydd DDdY drwy'r Gymraeg bob pum mlynedd. Nod y dyletswyddau hyn, o'u cymryd ochr yn ochr â mentrau ehangach, yw symud i gyfeiriad system ADY wirioneddol ddwyieithog.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sicrhau bod y ddyletswydd i ystyried a yw darpariaeth Gymraeg yn briodol yn un barhaus ac nad yw'n gyfyngedig i'r adeg pan fydd CDU wedi'i baratoi yn unig.

### **Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried? a Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (gweler y memorandwm esboniadol ) yn amlinellu'r ystyriaeth a roddwyd i bob un o'r opsiynau polisi, a'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r ddau opsiwn a gynigiwyd yn y Bil. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar effeithiau peidio â gweithredu'r polisi.

#### Darpariaeth 1: Cynlluniau i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: disodli'r cynlluniau cymorth presennol ag un cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY

#### Darpariaeth 2: Sail orfodol i'r cod ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: cyflwyno cod statudol

#### Darpariaeth 3: Datrys anghydfodau

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: ehangu cwrpas y trefniadau presennol

#### Darpariaeth 4: Cyfrifoldeb dros asesu anghenion pobl ifanc sy'n hŷn nag 16 oed a thros sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: pennu bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol ar gyfer dysgwyr ag ADY

Darpariaeth 5: Cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt anghenion addysgol arbennig

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: diwygio'r system ar gyfer cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol o safbwynt anghenion addysgol arbennig

Darpariaeth 6: Sail statudol i gydlynwyr cymorth anghenion addysgol arbennig mewn addysg

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: cyflwyno rôl cydlynnydd cymorth ADY statudol

Darpariaeth 7: Sail statudol i gydlynwyr strategol ym maes iechyd

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig

Darpariaeth 8: Sail statudol i gydlynwyr blynyddoedd cynnar mewn awdurdodau lleol

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: cyflwyno rôl statudol ar gyfer swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol dynodedig blynyddoedd cynnar

Darpariaeth 9: Darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: cyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg

Darpariaeth 10: Pwerau dyfarnu mewn perthynas ag anghytundebau ynghylch cynnal cynlluniau

- Opsiwn 1: gwneud dim
- Opsiwn 2: cyflwyno pŵer i Weinidogion Cymru i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gynnal cynllun datblygu unigol

Yn ogystal, mewn perthynas â hawl colegau arbenigol annibynnol i apelio ynghylch penderfyniad am y rhestr o golegau arbenigol annibynnol, ystyriwyd dau opsiwn:

A: bod y Tribiwnlys yn gwrando apelau am y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol yng Nghymru a Lloegr; a

B: bod Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Lloegr yn gwrando apelau gan golegau arbenigol ar y mater hwn.

O beidio â gweithredu'r Ddeddf, yr effaith fyddai bod diffygion ac anfanteision y system bresennol yn parhau.

Darpariaeth yn ymwneud â'r Gymraeg

Nid oedd y Bil drafft yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau yn ymwneud â'r Gymraeg ar y sail y byddai sicrhau DDdY drwy'r Gymraeg yn fater y byddai safonau'r Gymraeg yn delio ag ef. Ystyriwyd hefyd y byddai'r Cod ADY yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ac eraill am yr angen i sicrhau bod gofynion dysgwyr o ran y Gymraeg yn cael eu bodloni.

Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft ac ystyriaeth bellach, gwrthodwyd yr opsiwn polisi hwn ar y sail na fyddai o reidrwydd yn sicrhau bod DDdY ar gael drwy'r Gymraeg i bob dysgwr ar draws pob lleoliad. Byddai hyn wedi golygu y byddai'r diffygion a welir ar hyn o bryd mewn perthynas â chyflwyno DDdY drwy'r Gymraeg yn parhau. Mae'r Ddeddf nawr yn cynnwys darpariaethau (fel yr amlinellir yng nghanam 3 isod) sy'n gosod gofynion penodol ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrrff y GIG mewn perthynas ag ystyried a sicrhau DDdY drwy'r Gymraeg, yn ogystal ag adolygu'n barhaus pa mor briodol yw'r ddarpariaeth Gymraeg. Croesawyd y darpariaethau yn ystod Cam 1 y broses ddeddfwriaethol. Ymhlith y rheini a'u croesawodd oedd Comisiynydd y Gymraeg.

### **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – Cymraeg2050 – Miliwn o Siaradwyr?**

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr' yn nodi: *'Mae addysg yn ganolog i'n gweledigaeth, ond mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein pobl ifanc yn gadael y system addysg yn barod i ddefnyddio'r iaith ym mhob cyd-destun ac yn falch o gael gwneud hynny, fel y mae Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg 2017-2021 yn ei nodi.'*

Mae 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru yn nodi ein huchelgais o gael gwlad lle y mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r isadeiledd addysg. Ei nod yw sicrhau bod y system addysg yn ei gwneud yn bosibl i fwy o ddysgwyr o bob oedran feithrin amrywiaeth ehangach o sgiliau iaith yn y Gymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle.

Yr amcan strategol cyntaf y mae am ei hyrwyddo yw:

*'Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cym-statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.'*

Fel rhan o'r broses, bydd Llywodraeth Cymru yn:

*'Disgwyl gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel rhan annatod o ddarpariaeth addysg yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.'*

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i anghenion dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rheini sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gael eu hystyried yn llawn gan gyrrff llywodraethu ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol a chael eu cynllunio'n well. Fel rhan o'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY, mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod sgiliau'r gweithlu addysg yn cael eu diweddarau a'u bod wedi'u hyfforddi i gyflwyno'r system newydd. Mae hyn yn cynnwys ystyried gofynion y Gymraeg, gan gynnwys wrth gynllunio'r gweithlu. Mae'r Ddeddf hefyd yn

diwygio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, fel bod Gweinidogion Cymru, wrth gynllunio'r ddarpariaeth addysg ôl-16, yn ystyried capasiti'r gweithlu addysg bellach i gyflwyno DDdY drwy'r Gymraeg a'r cyfleusterau sydd ar gael i gynnal asesiadau drwy'r Gymraeg ynghylch a oes gan ddysgwyr ADY.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach wrth baratoi CDUau i ystyried a ddylai plentyn neu berson ifanc gael DDdY drwy'r Gymraeg, a nodi yn y CDU pa DDdY y dylid ei chyflwyno yn Gymraeg. Mae yna ddyletswydd bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY a nodir yn cael ei chyflwyno i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg. Mae hyn hefyd yn berthnasol i blant a phobl ifanc ag ADY sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod y ddyletswydd i ystyried a yw darpariaeth Gymraeg yn briodol yn un barhaus ac nad yw'n gyfyngedig i'r adeg pan fydd CDU wedi'i baratoi yn unig.

Yn ogystal, lle bydd cyrrff y GIG yn cyflwyno DDdY, rhaid iddynt benderfynu a ddylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg ac, os felly, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy'r Gymraeg. Os bydd corff y GIG yn nodi bod angen DDdY drwy'r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, rhaid cofnodi hyn yn y CDU.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth Gymraeg wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer DDdY eu gwahanol ardaloedd.

Nod y Llywodraeth yw symud o sefyllfa lle mae cymryd pob cam rhesymol yn ddigonol i sefyllfa lle mae'n ddyletswydd absoliwt darparu DDdY drwy'r Gymraeg ledled Cymru. Mae dwy elfen yn y Ddeddf yn ymwneud yn uniongyrchol â hwyluso hyn.

Yn gyntaf, bydd gofyn i Weinidogion Cymru adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth Gymraeg bob pum mlynedd a chyhoeddi adroddiadau yn dilyn yr adolygiadau hyn. Defnyddir y dystiolaeth o'r adolygiadau hyn fel sail ar gyfer yr ail elfen, sef y pŵer i lunio rheoliadau i osod dyletswydd absoliwt i sicrhau DDdY drwy'r Gymraeg. Gall y rheoliadau hyn gael gwared ar brawf 'pob cam rhesymol' o'r gwahanol ddyletswyddau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â DDdY drwy'r Gymraeg, gan wneud y dyletswyddau yn absoliwt. Bydd y rheoliadau yn gweithio mewn ffordd debyg i Safonau'r Gymraeg fel y gellir adlewyrchu heriau daearyddol penodol. Bydd yr elfennau hyn o'r Ddeddf yn sicrhau bod ei gofynion cyfreithiol yn gydnaws â gallu gwasanaethau i gynnig darpariaeth ddwyieithog, a hefyd eu bod yn hyrwyddo datblygiadau yn hyn o beth.

At hyn, o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n ofynnol erbyn hyn i bob awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w gymeradwyo (neu beidio) gan Weinidogion Cymru. Cynlluniau 3 blynedd yw'r rhain y mae gofyn i awdurdodau lleol eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r cynlluniau cyfredol sydd wedi'u cymeradwyo yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2020.

Wrth lunio eu cynlluniau, mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnwys, ymhlith elfennau eraill:

*'datganiad yn nodi strategaeth yr awdurdod lleol o ran sut y bydd yn gwella addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion y mae angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt sy'n deillio o unrhyw anhawster y mae y disgybl yn ei gael wrth ddysgu mewn perthynas â disgyblion eraill sydd o'r un oedran nad ydynt yn cael unrhyw anhawster wrth ddysgu'*

Yn dilyn adolygiad o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cyntaf, anfonodd Gweinidogion Cymru ganllawiau diwygiedig at awdurdodau lleol i'w helpu i baratoi eu Cynlluniau Strategol ar gyfer 2017-2020. Mae'r canllawiau yn nodi:

### **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol**

Mae'r pwyslais yma ar ehangu capasiti i gyflwyno DDdY briodol drwy'r Gymraeg ar bob cam o addysg dysgwr. Yn benodol, gofynnir i awdurdodau lleol nodi sut maent yn mesur ac yn bodloni'r galw ac yn gweithio gyda rhieni sy'n dymuno darpariaeth ADY drwy'r Gymraeg. Gofynnir iddynt nodi sut maent yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill i gyflwyno darpariaeth ADY drwy'r Gymraeg.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol yn benodol ystyried y canlynol:

- yng ngoleuni eich archwiliad blynyddol diweddaraf o anghenion ychwanegol disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg, pa fath o angen y mae'r awdurdod yn methu darparu cymorth ar ei gyfer drwy'r Gymraeg;
- sut mae'r awdurdod yn bwriadu pontio'r bwlch rhwng anghenion a nodwyd a'r cymorth sydd ar gael; a
- rhowch amcangyfrif o nifer y disgyblion sy'n methu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg am nad yw'r awdurdod yn gallu cynnig y cymorth priodol drwy'r Gymraeg.

Mae'r gofynion o ran Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sefydlu fframwaith statudol y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i wella'r broses o gynllunio a darparu'r DDdY i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Maent felly yn ategu amcanion y Ddeddf.

### **Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Bydd y Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ag ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd yna fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer pawb rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY, sydd o oed ysgol gorfodol neu'n iau, neu sy'n mynd i addysg bellach. Mae'r fframwaith hwn yn darparu ar gyfer proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro, sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol a system deg a thryloyw ar gyfer datrys pryderon ac apelau. Wrth wraidd y Ddeddf a'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY mae dymuniad i roi lle canolog i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r dysgwr yn y penderfyniadau a wneir ac yn y broses gynllunio – fel bod y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i bopeth mewn perthynas â'u ADY a'u DDdY.

Bydd y dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrrff y GIG i ystyried a ddylai plentyn neu berson ifanc gael DDdY drwy'r Gymraeg, sicrhau bod unrhyw DDdY drwy'r Gymraeg yn cael ei chofnodi yn y CDU a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY benodol yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg, yn rhoi gwell profiad i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg a'u teuluoedd ac, yn y pen draw, bydd yn gwella canlyniadau addysgol y dysgwr. Nid ydym yn nodi unrhyw effeithiau negyddol ar siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, na gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.

Hefyd, bydd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i ystyried digonolrwydd DDdY drwy'r Gymraeg, wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer DDdY yn eu gwahanol ardaloedd, yn helpu i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, dylai'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth i gapasiti'r gweithlu addysg bellach i gyflwyno DDdY drwy'r Gymraeg a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer cynnal asesiad drwy'r Gymraeg ynghylch a oes gan ddysgwr ADY hefyd helpu i wella'r ddarpariaeth Gymraeg. Bydd y mesurau hyn yn helpu i hyrwyddo newid ac yn gwella'r sefyllfa o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy sicrhau ei bod yn ystyriaeth bwysig i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.

Bydd y gofyniad i Weinidogion Cymru adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth Gymraeg bob pum mlynedd a'r pŵer, drwy reoliadau, i symud o sefyllfa o bob cam rhesymol i sefyllfa o ddyletswyddau absoliwt i ddarparu DDdY yn newid pethau ymhellach, gan sicrhau ein bod yn symud tuag at system ADY wirioneddol ddwyieithog.

Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u hystyried yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a wnaed dano ym mis Mawrth 2015. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi hysbysiadau cydymffurfio i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn unol â'i phwerau o dan y rheoliadau. Mae safonau'r Gymraeg yn ymwneud â materion fel gohebiaeth, cyfarfodydd, arddangos deunydd yn gyhoeddus a gwefannau ymhlith materion eraill.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys pawb sy'n cael budd o'r diwygiadau a'r rheini sy'n helpu i gyflwyno'r diwygiadau: dysgwyr, y rhieni, yr athrawon, Cydlynwyr AAA/Cydlynwyr ADY, seicolegwyr addysgol a darparwyr gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, yn ogystal â sefydliadau'r trydydd sector sy'n helpu dysgwyr a'u rhieni.

Caiff y lle canolog ei roi i'r dysgwr a bydd hyn o fudd i'r rheini a gaiff eu haddysgu drwy'r Gymraeg yn ogystal â'r rheini na chânt eu haddysgu drwy'r Gymraeg. Fel yr amlinellir uchod, rhoddir ystyriaeth i ddewis iaith ac anghenion iaith pob dysgwr ag ADY ac, os darperir DDdY drwy'r Gymraeg, caiff hyn ei nodi yn eu CDU a chymerir pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth Gymraeg honno. Dros amser, bydd y ddyletswydd 'pob cam rhesymol' hon yn newid i ddyletswydd absoliwt.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Bil drafft yn 2015. Cynhaliwyd rhaglen gynhwysfawr i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod ymgynghori,

gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli buddiannau'r sector cyfrwng Cymraeg, a rhoddwyd ystyriaeth lawn i'w safbwyntiau. Aethpwyd ati i ystyried o ddifrif sut i ddatblygu'r Bil, a gwnaed diwygiadau ehangach yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law.

Y gobaith yw y bydd dysgwyr sy'n siarad Cymraeg a'u teuluoedd, yn ogystal â grwpiau sydd â budd yn y Gymraeg, yn ymateb yn gadarnhaol i ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n ceisio gwella'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ag ADY. Dyna'n union a welwyd hyd yn hyn.

Mae gwaith wedi'i wneud drwy'r Rhaglen i Drawsnewid y System ADY i gefnogi partneriaid i weithredu'r system newydd a argymhellir yn y Ddeddf. Yn benodol, sefydlwyd Grŵp Gweithredu Strategol ADY, grŵp sy'n cynnwys partneriaid gweithredu allweddol, i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch sut y dylid gweithredu'r system newydd a beth yw'r ffordd orau i bartneriaid gweithredu baratoi ar gyfer y cyfnod gweithredu a chael eu cefnogi cyn ac yn ystod y cyfnod gweithredu.

Roedd ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhan annatod o waith Grŵp Gweithredu Strategol ADY. Roedd hyn yn flaenoriaeth i aelodau'r Grŵp.

Yn dilyn gwaith Grŵp Gweithredu Strategol ADY, sefydlwyd grwpiau arbenigol i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar weithredu agweddau penodol ar y Ddeddf.

Yn ogystal, penodwyd arweinwyr trawsnewid rhanbarthol i helpu sefydliadau i weithredu'r Ddeddf. Gan weithio gyda sefydliadau sydd â chyfrifoldebau o dan y Ddeddf, bydd yr arweinwyr trawsnewid yn drafftio cynllun gweithredu ar gyfer eu hardal. Bydd y cynllun yn nodi sut y bydd sefydliadau yn cynllunio ar gyfer y gofynion a amlinellir yn y Ddeddf o ran y Gymraeg, a sut y byddant yn eu gweithredu.

Rhagwelir y bydd canllawiau a nodir yn y Cod ADY yn rhoi sylw pellach i fuddiannau siaradwyr Cymraeg, ac yn benodol y rheini sydd ag ADY sy'n dysgu drwy'r Gymraeg. Cyhoeddwyd ail fersiwn y Cod ADY drafft ym mis Chwefror 2017, i helpu'r Cynulliad i graffu ar y Bil. Datblygwyd y fersiwn hon o'r Cod mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a phartneriaid gweithredu allweddol drwy Grŵp Datblygu Cynnwys y Cod. Ystyriwyd materion yn ymwneud â'r Gymraeg ymhellach wrth ei ddatblygu.

Mae'r broses o ddatblygu'r Cod yn broses raddol a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r bobl briodol, fel y nodir yn y Ddeddf, cyn cyhoeddi neu ddiwygio Cod. Mae Comisiynydd y Gymraeg ar y rhestr o'r bobl y mae'n rhaid ymgynghori â nhw.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.**

(Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Mae asesiad effaith llawn wedi'i gwblhau.

**Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynol?**

e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau



Cymraeg, rhestrï rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor?

Roedd cyhoeddi'r Bil drafft ym mis Gorffennaf 2015 a'r Cod drafft ym mis Medi 2015 yn gyfle i randdeiliaid roi eu sylwadau ynghylch yr effaith debygol ar ein cynigion o ran y Gymraeg. Aethpwyd ati i ymgysylltu'n benodol â'r rheini sydd â budd yn y broses o wella'r ddarpariaeth Gymraeg, gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac rydym wedi parhau i ymgysylltu ers hynny.

Defnyddiwyd y sylwadau a ddaeth i law gan randdeiliaid i lywio'r broses o firenio'r Ddeddf a'r rhaglen drawsnewid ehangach. Mae swyddogion o'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr ac Is-adran y Gymraeg wedi cydweithio'n agos ar ddatblygu'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan roi ystyriaeth i'r cyddestun deddfwriaethol presennol (gan gynnwys ystyried eu halinio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) 2015) a pholisïau presennol mewn perthynas â darpariaeth y Gymraeg.

Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018, a chafodd y Cod ADY drafft ei rannu â'r Cynulliad ym mis Chwefror 2017 i'w helpu gyda'r broses graffu.

Rhwng 27 Chwefror a 9 Mehefin 2017, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau arfaethedig ar gyfer gweithredu'r system newydd. Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio'r cynlluniau a'r broses bontio. Cynhelir ymgynghoriad ar y Cod ADY cyn ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

## **CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU**

### **Crynodeb o'r Asesiad Effaith**

**Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.**

#### **Effeithiau cadarnhaol:**

Bydd y Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ag ADY gan y bydd yn sicrhau mynediad mwy amserol ac effeithiol i ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

Bydd y dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf i gefnogi dysgwyr ag ADY sy'n siarad Cymraeg yn helpu i wella profiad y dysgwyr hynny a gwella'r DDdY sydd ar gael drwy'r Gymraeg.

#### **Effeithiau negyddol:**

Ni fydd y Ddeddf yn cael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc ag ADY sy'n siarad Cymraeg.

**Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

Fel y nodwyd yn 'Cam 1' y ddogfen hon, bydd y dyletswyddau newydd yn y Ddeddf ar

awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a chyrff y GIG i ystyried a ddylai plentyn neu berson ifanc gael DDdY drwy'r Gymraeg, sicrhau bod unrhyw DDdY drwy'r Gymraeg yn cael ei chofnodi yn y CDU a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY benodol yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg, yn hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Bydd y dyletswyddau strategol y mae'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer yn ysgogi gwasanaethau i wella eu capasiti i gynnig darpariaeth drwy'r Gymraeg, gan sicrhau ein bod yn symud tuag at system ADY wirioneddol ddwyieithog.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Tystiolaeth a ddefnyddiwyd:

Adroddiad *Cydnabod Angen* gan Brifysgol Bangor, a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith ar anghenion addysgol arbennig Cymraeg a dwyieithog.

- Defnyddiwyd ystadegau ar nifer y dysgwyr ag AAA sy'n astudio drwy'r Gymraeg i asesu'r effaith bosibl
- Ystadegau ar nifer yr athrawon Cymraeg sy'n gweithio yn y brif ffrwd, yn addysg y blynyddoedd cynnar ac mewn addysg bellach
- Ystadegau ar nifer y Cydlynwyr AAA sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i Arolwg Bwrdd yr Iaith o *Ddarpariaeth Gymraeg a Dwyieithog i Ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru*. Lluniwyd y cynllun gweithredu hwn yn 2006.

Mae cyfran y dysgwyr sydd ag AAA ac sy'n dysgu drwy'r Gymraeg ychydig yn is na chyfran y dysgwyr sydd ag AAA ac sy'n astudio drwy'r Saesneg.

**Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?**

Cadarnhaol:   
 Negyddol:   
 Niwtral:   
 Anhysbys:

**Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad**

1. Dim newid sylweddol
2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau
3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru
4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno

**Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:**

**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chyynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Cyhoeddwyd yr asesiad effaith hwn ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r Bil ym mis Gorffennaf 2015.

Cyhoeddwyd asesiad effaith diwygiedig i gyd-daro â chyflwyno'r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwnaed newidiadau pellach i'r asesiad effaith hwn i adlewyrchu gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod Cam 2 a Cham 3 o'i hynt drwy'r Cynulliad. Gallwch weld fersiwn derfynol yr asesiad o effaith ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/legislation-and-statutory-guidance/?skip=1&lang=cy>

Pasiwyd y Ddeddf gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2017 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018.

Cafodd sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid eu cynnal yn ystod 2017 i frifio rhanddeiliaid ar y cynigion yn y Bil a'r Cod a holi eu barn ar yr opsiynau ar gyfer gweithredu'r system newydd.

Rhwng 27 Chwefror a 9 Mehefin 2017, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol hefyd ar y cynlluniau arfaethedig i weithredu'r system newydd a sefydlir gan y Ddeddf. Caiff ymgynghoriad ei gynnal ar y Cod ADY a rhai o'r rheoliadau sydd eu hangen ar gyfer y system ADY newydd.

### **CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO**

#### **Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd pob ymateb a ddaeth i law yn sgil ymgynghoriadau blaenorol. Mae unrhyw adborth a ddaeth i law ar y Bil, y Cod drafft a'r dogfennau cysylltiedig wedi'u hystyried a'u defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r polisi.

Mae'r Ddeddf nawr yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan ei gwneud yn ofynnol yn benodol i gyrrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach, ac awdurdodau lleol, benderfynu a ddylai DDdY plentyn neu berson ifanc fod drwy'r Gymraeg, ac os ydynt yn penderfynu y dylai fod, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol iddynt nodi'n benodol yn y cynllun y dylai fod yn Gymraeg. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

Lle bydd cyrff y GIG yn rhoi gwybod i gorff sy'n cynnal CDU y dylid darparu triniaeth neu wasanaeth perthnasol i blentyn neu berson ifanc drwy'r Gymraeg, rhaid i'r corff sy'n cynnal y cynllun nodi hynny'n benodol o fewn y cynllun.

Rhaid i awdurdodau lleol adolygu'n rheolaidd y trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn eu hardal ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn eu hardal, gan roi sylw i'r angen i sicrhau bod y DDdY ar gael drwy'r Gymraeg.

Mae dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i sicrhau bod cyflogeion a darpar-gyflogeion ar gael i gyflwyno DDdY drwy'r Gymraeg a rhoi ystyriaeth i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i sicrhau bod cyfleusterau ar gael i asesu drwy'r Gymraeg a oes gan ddysgwyr ADY.

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r Ddeddf i gryfhau ymhellach yr elfennau sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn ymateb i adborth a ddaeth i law yn ystod camau craffu'r broses ddeddfwriaethol; er enghraifft, y gofynion i Weinidogion Cymru adolygu digonolrwydd DDdY drwy'r Gymraeg bob pum mlynedd, a phan ystyrir bod darpariaeth Gymraeg yn briodol, y dylai'r broses honno fod yn un barhaus ac nad yw'n gyfyngedig i'r adeg pan fydd CDU wedi'i baratoi yn unig.

### **Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

Adolygwyd yr effaith ar y Gymraeg yn rheolaidd wrth i'r Bil fynd drwy broses graffu'r Cynulliad.

Wrth i bolisiâu ynghylch ein hagenda ddiwygio gael eu datblygu, ystyrir ymhellach yr effaith ar y Gymraeg a sut i fynd i'r afael ag anghenion siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth Gymraeg bob pum mlynedd a chyhoeddi adroddiadau yn dilyn yr adolygiadau hyn. Defnyddir y dystiolaeth o'r adolygiadau hyn fel sail ar gyfer yr ail elfen, sef y pŵer i lunio rheoliadau i osod dyletswydd absoliwt i sicrhau DDdY drwy'r Gymraeg. Gall y rheoliadau hyn gael gwared ar brawf 'pob cam rhesymol' o'r gwahanol ddyletswyddau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â DDdY drwy'r Gymraeg, gan wneud y dyletswyddau yn absoliwt. Bydd y rheoliadau yn gweithio mewn ffordd debyg i Safonau'r Gymraeg fel y gellir adlewyrchu heriau daearyddol penodol. Bydd yr elfennau hyn o'r Ddeddf yn sicrhau bod ei gofynion cyfreithiol yn gydnaws â'r datblygiadau o ran gallu gwasanaethau i ddarparu'n ddwyieithog, a hefyd eu bod yn hyrwyddo datblygiadau hynny.

Fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredol, cynhelir gwerthusiad o effaith y Ddeddf i fonitro i ba raddau y mae'r newidiadau deddfwriaethol a'r newidiadau polisi ehangach yn ymsefydlu ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY drwy'r Gymraeg. Mae astudiaeth yn cael ei chynnal ar hyn o bryd a fydd yn llinell sylfaen i asesu'r effaith yn y dyfodol.

### **Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol.**

Parheir i ystyried yr effaith ar y Gymraeg nawr bod y Ddeddf wedi cael Cydsyniad Brenhinol ac wrth i'r rhaglen ehangach i drawsnewid y system ADY gael ei datblygu a'i gweithredu.

### **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg**

## **Datganiad**

**Arweinydd polisi:** Karen Bathgate

**Mae'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Adran:

Y Gangen Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dyddiad(au):

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Gorffennaf 2018

### **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL**

Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad

Llofnodwyd Ruth Conway  
Uwch Berchennog Cyfrifol

Dyddiad adolygu Gorffennaf 2018